| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **25 Hydref 2018** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Arweinydd/Pennaeth Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Marchnata** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Arweinydd Tîm: Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd Twristiaeth** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Manylu ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran amrywiol fentrau twristiaeth a'u cyfraniad tuag at ddarparu amcan cyffredinol y Cyngor o safbwynt datblygu economaidd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd ar ôl cyflwyno adroddiad cychwynnol i Bwyllgorau Craffu ym mis Medi 2017 y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno mewn 12 mis.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Craffu yn ystyried yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau ar y materion a adroddir amdanynt ynddo.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Partneriaeth: Rheoli Cyrchfan

Lansiwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych ym mis Hydref 2017 gyda'r amcanion canlynol:

Cynyddu'r nifer o ymwelwyr a oedd yn aros dros nos ac ymwelwyr elw uchel i'r ardal.
Darparu profiad cofiadwy o safon uchel i bob ymwelydd.
Cyfrannu at y nod o gynyddu cyfran marchnad Cymru o dwristiaeth domestig a rhyngwladol
Sicrhau cydbwysedd rhwng hyrwyddo ein safleoedd mwyaf poblogaidd, gwarchod ein hamgylchedd a rhannu elw twristiaeth ar draws yr ardal gyfan.

Datblygwyd y Cynllun drwy Bartneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych mewn cydweithrediad gyda gwasanaethau CSDd a phartneriaid allweddol eraill gan gynnwys yr AHNE. Talodd sylw penodol i'r pum prif thema (Tai, Amgylchedd, Pobl Ifanc, Clymu Cymunedau a Chymunedau Cryf) Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017 – 20.

Mae'r strwythur Rheoli Cyrchfan a ddisgrifir yn yr adroddiad blaenorol yn parhau. Mae'r Fforwm Twristiaeth yn parhau yn ddigwyddiad allweddol i'r diwydiant gyda dros 80 o fusnesau yn mynychu yn y ddau ddiwethaf (atodiad 1).

Mae’r Tîm Twristiaeth yn ymgysylltu gyda Twristiaeth Gogledd Cymru a Threftadaeth CSDd ar gynllun i symud Canolfan Groeso’r Rhyl ac Amgueddfa’r Rhyl i safle newydd ar y cyd â Gorsaf Reilffordd y Rhyl. Bydd hyn yn creu atyniad newydd i ymwelwyr yn y dref ac o bosib yn cynyddu faint o bobl sy’n mynychu'r ddwy adnodd. Gwelwyd cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr â Chanolfannau Croeso’r Rhyl a Llangollen o 1.5% ac 1.4% yn ystod 2017-18. Mae’r tîm twristiaeth hefyd wedi gweithio'n agos gyda swyddogion CSDd sy'n gyfrifol am farchnata SC2 drwy roi gwybod i'r diwydiant twristiaeth am y datblygiad ac ymgysylltu â Chroeso Cymru ar ran y prosiect.

Mae Pwyntiau Gwybodaeth i Dwristiaid wedi agor yn Llyfrgell Llanelwy (Ebrill 2018) a Llyfrgell Dinbych (Mai 2018) (atodiad 2). Mae taflen newydd 5 Taith, wedi ei datblygu i wthio ymwelwyr i leoliadau ar draws y sir ac rydym yn parhau i argraffu a hyrwyddo’r wyth llwybr trefol drwy'n gwasanaeth dosbarthu (atodiad 3).

Mae Rhaglen Llysgennad Twristiaeth Sir Ddinbych yn mynd rhagddi. Wedi ei ariannu yn rhannol gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae’r cynllun arloesol hwn yn ceisio ehangu apêl y llysgenhadaeth drwy ddatblygu modiwlau ar-lein y gall busnesau eu defnyddio’n hawdd. Ar hyn o bryd mae’r prosiect yn cwblhau cynnwys y modiwlau, darpariaeth ddigidol a brandio (atodiad 4).

**Partneriaeth: Gogledd Ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru**

Cyflymodd datblygiad Llwybrau at y Môr, prosiect £40,000 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2018 pan grewyd nifer o ffilmiau o safon uchel (atodiad 5), lluniaua drwy ddefnyddio blogwyr yn arloesol er mwyn darparu darlun go iawn o’n hardal ac ymgysylltu gyda chynulleidfa ehangach (atodiad 6).

Rhedodd y prosiect hefyd ddigwyddiad Her Bwyd Môr gyda busnesau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru. Yr enillydd oedd Gales, Llangollen a chafwyd sylw cadarnhaol iawn yn y wasg (atodiad 7)

Mae’r Tîm Twristiaeth wedi adeiladu ar enw da Gogledd Cymru fel un o gyrchfannau ymwelwyr allweddol y Byd, wedi llwyddo i gael £140,000 o arian Llywodraeth Cymru fel rhan o gais partneriaeth Gogledd Cymru (Conwy, Ynys Môn, Gwynedd, Wrecsam, Sir y Fflint, a Sir Ddinbych). Nod y prosiect yw hyrwyddo cynnig twristiaeth y gaeaf a datblygu llwybrau a ysbrydolwyd gan Brosiect Cenedlaethol “Ffordd Cymru”.

**Digwyddiadau**

Lansiwyd Proses Hysbysu Digwyddiadau newydd, fwy syml ym mis Ionawr 2018 (atodiad 8). Bellach gofynnir i drefnwyr digwyddiadau lenwi ffurflen fer a rhoddwyd gwybod iddynt mai eu cyfrifoldeb nhw yw cysylltu â swyddogion perthnasol o fewn yr awdurdod. Rhestrir swyddogion ar y ffurflen er mwyn gwneud y dasg hon yn haws i drefnwyr digwyddiadau. Mae pob Ffurflen Hysbysu o Ddigwyddiad a gyflwynir i’r tîm twristiaeth yn cael ei chylchredeg yn syth i’r swyddogion yn y broses. Mae’r cwbl neu’r rhan fwyaf o gyswllt yn digwydd rhwng y swyddog perthnasol a threfnydd y digwyddiad. Mae adborth, yn gyffredinol, wedi bod yn bositif gan drefnwyr digwyddiadau a swyddogion CSDd. Hyd yma mae dros o 100 o ddigwyddiadau wedi ymgysylltu â’r broses.

**Partneriaeth: Marchnata a Phrofiad Ymwelwyr**

Mae’r Tîm Twristiaeth wedi gweithio’n galed i arloesi dros y 12 mis diwethaf. Anfonwyd newyddlenni digidol rheolaidd at ein cronfeydd data busnes ac ymwelwyr (atodiad 9). Yn ogystal â hynny rydym wedi cynyddu ein gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol ac wedi sicrhau bod y cynnyrch digidol rydym wedi eu creu yn gweithio’n dda ar draws y llwyfannau hyn. Mae’r dull hwn wedi gweld cynnydd sylweddol yn ein traffig i’n sianeli digidol (atodiad 10). Rydym yn monitro ein sianeli digidol fel y gallwn ddeall lle rydym yn fwyaf effeithiol. (Atodiad 11 ac atodiad 12).

Ar wahân i farchnata digidol rydym wedi creu nifer o ddarnau i’r Wasg sydd wedi ennyn diddordeb y wasg gan gynnwys y Fforwm Twristiaeth, ffigyrau STEAM a phwysigrwydd effaith economaidd twristiaeth ar yr economi leol (atodiad 13)

Er bod ffigyrau STEAM yn cyfeirio at 2017 mae’n werth nodi bod hon yn flwyddyn dda arall ar gyfer twristiaeth gyda’r effaith economaidd yn codi o 2.3% ar ffigwr 2016, i £490 miliwn. Mae’r ffigyrau cyfredol yn galonogol: rydym yn ymgysylltu’n fwy effeithiol gydag ymwelwyr posib ac yn creu cynnyrch sy’n gwneud i bobl ymgysylltu. Mae hefyd yn bwysig sylweddoli pwysigrwydd gwneud pethau’n iawn ar lawr gwlad fel bod y profiad yn bodloni’r disgwyliadau. Am y rheswm hwn rydym yn canolbwyntio’n gryf ar Reoli Cyrchfan (Fforwm Twristiaeth, Partneriaeth Cyrchfan, Cynllun Llysgennad Twristiaeth, Canolfannau Croeso, Pwyntiau Gwybodaeth Twristiaid, Llwybrau Trefol, rhannu llenyddiaeth i enwi rhai o’r elfennau). Yn wraidd i’r dull hwn o weithio mae gweithio mewn partneriaeth.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Yr Amgylchedd: Deniadol ac yn cefnogi lles a ffyniant economaidd

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Amherthnasol

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Amherthnasol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol .

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 7.4.2(b) Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall y Pwyllgor Craffu "adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig".

**Swyddog Cyswllt:**
Arweinydd Tîm-Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau
Ffôn: 01824 706152